



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

O Ffiliau Gwerthiant i Forgeisi Nwyddau Crynodeb

**Comisiwn y Gyfraith Rhif 376 (Crynodeb)
Tachwedd 2017**

CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae biliau gwerthiant yn cynnig ffyrdd i unigolyn allu defnyddio nwyddau sydd eisoes yn eu eiddo el sicrwydd ar gyfer benthyciad, tra'n cadw meddiant ar y nwyddau hynny. Mae defnydd biliau gwerthiant wedi cynyddu o 3,000 yn 2001 i fwy na 30,000 yn 2016. Cawsant eu defnyddio yn bennaf ar gyfer "benthyciadau llyfr log", lle mae darparwyr benthyciadau yn rhoi gwarant dros y cerbyd. Gall benthygwyr barhau i ddefnyddio'r cerbyd tra eu bod yn parhau i dalu'r ad-daliadau, ond os ydynt yn methu taliad yna gall y cerbyd gael ei adfeddiannu, heb yr amddiffyniadau sy'n berthnasol i bryniannau hirbrynu.
- 1.2 Caiff Biliau Gwerthiant eu rheoleiddio ar hyn o bryd gan ddwy statud o Oes Fictoria, sef y Deddfau Biliau Gwerthiant 1878 a 1882. Mae'r ddeddfau yma yn hynafol ac yn hollol anaddas i'r 21^{ain} ganrif. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylai'r Deddfau hyn gael eu diddymu a'u disodli gan "Deddf Morgeisi Nwyddau" newydd sy'n rheoli'r ffordd y gall unigolion ddefnyddio nwyddau sydd eisoes yn eiddo iddynt fel sicrwydd ar gyfer benthyciad.
- 1.3 Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith Bil Morgeisi Nwyddau ddrafft er mwyn:
 - (1) amddiffyn benthygwyr, fel nad yw'r nwyddau yn cael eu hadfeddiannu'n rhy rhwydd;
 - (2) amddiffyn prynwyr diniwed sydd yn prynu nwyddau heb sylweddoli eu bod yn ddarostyngedig i ddiddordebau diolegeledd;
 - (3) arbed costau a achosir gan ofynion cofrestru diangen a chymhleth; a
 - (4) chael gwared ar gyfyngiadau diangen ar fenthyca diogeledd i ddarparwyr benthyciadau fwy soffistigedig, megis unigolion gwerth llawer o arian a busnesau anghorfforedig.

Hanes y prosiect

- 1.4 Ym Medi 2014, gofynnodd Trysorlys EM i Gomisiwn y Gyfraith i edrych ar y Deddfau Biliau Gwerthiant ac i wneud awgrymiadau er mwyn eu diwygio. Cyhoeddom bapur ymgynghori yng Ngorffennaf 2015, ac adroddiad ym Medi 2016.
- 1.5 Yn Chwefror 2017, gofynnodd y Llywodraeth i'r Comisiwn i ddrafftio deddfwriaeth er mwyn gweithredu ein hargymhellion. Ymgynghorom ar gymalau cychwynnol yng Ngorffennaf 2017 a chyhoeddom fersiwn fwy diweddar o'r drafft Bil ym Medi 2017.
- 1.6 Mae'r papur yma yn grynodeb o adroddiad terfynol fwy cynhwysfawr, sydd yn esbonio ein hargymhellion diwygiedig a'r Bil ddrafft.¹

¹ O Ffiliau Gwerthiant i Forgeisi Nwyddau: Adroddiad Terfynol a Bil Drafft (2017) Comisiwn y Gyfraith Rhif 376, ar gael yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/bills-of-sale/>.

- 1.7 Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur cefndirol yn trafod cofrestru hawlrwymau mewn systemau eraill a mewn awdurdodaethau eraill.²

YR ANGEN AM DDIWYGIAD

- 1.8 Mae darparwyr benthyciadau a benthycwyr yn cytuno bod angen ar frys i ddiwygio'r gyfraith. Mae'r gyfraith gyfredol yn achosi caledi i fenthycwyr a phrynwyr preifat, sydd yn gosod pwysau diangen ar fenthycwyr ac yn cyfyngu mynediad at gyllid i fusnesau anghorfforedig ac unigolion werth llawer o arian.

Anhawsterau i fenthycwyr

- 1.9 Mae'r mwyafrif o filiau gwerthiant yn cael eu rhoi ar gyfer benthyciadau llyfr log, yn aml gan rhai sydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ffyrdd eraill o gael credyd. Mae'r math hyn o fenthycwyr yn hynod o fregus i ddiffygion yn y gyfraith gyfredol.

Gwaith papur dryslyd

- 1.10 Dengys ymchwil nad yw benthycwyr yn "meddwl llawer" am goblygiadau benthyciad llyfr log.³ Mae'r ffurf statudol biliau gwerthiant, fel a mynegir yn y Ddeddf 1882, yn gallu drysu'r benthycwyr yn hytrach na'u helpu i ddeall canlyniadau benthyciad.

Diffyg amddiffyniad yn erbyn adfeddiant

- 1.11 Mae'r Deddfau Biliau Gwerthiant ond yn darparu'r amddiffyniad lleiaf i fenthycwyr yn erbyn adfeddiant eu nwyddau os ydynt yn methu talu benthyciad. Mae hyn yn cyferbynnu â chyfraith hurbrynu. Yma, unwaith mae'r benthyciwr wedi talu un traean o gyfanswm yr hurbryniad, wedyn rhaid i'r darpariwr benthyciad ofyn am orchymyn llys cyn adfeddiannu'r nwyddau. Gall y llys ofyn am gynllun talu gwahanol neu gorchymyn atal tra bod y benthyciwr yn gwneud taliadau.
- 1.12 Yn ôl rheolau Awdurdod Rheoli Cyllid, rhaid i ddarparwyr benthyciadau llyfr log gael polisiâu i ymdrin â methiant i dalu. Pwysleisiodd i'r rhai a wnaethom siarad bod well ganddynt gytuno ar gynlluniau ad-dalu gwahanol, a byddent ond yn ystyried adfeddiant fel opsiwn olaf. Serch hynny, mae darparwyr benthycwyr yn ymgymeryd dulliau gwahanol tuag at adfeddiant. Mae cwynion wedi bod lle mae darparwyr benthyciadau yn bygwth adfeddiant i fynnu symiau afresymol ac anfforddiadwy. Mewn rhai achosion, gall ddarparwyr benthyciadau adfeddiannu cerbydau gan rai mewn trafferthion ariannol dros dro, hyd yn oed os yw'r benthyciad wedi cael ei dalu i fyny at swm sylweddol ac mae benthycwyr yn parhau i wneud pob ymdrech i ad-dalu'r taliadau sydd ar ôl.

Terfyniad gwirfoddol

- 1.13 Mae angen i ddarparwyr benthyciadau, os ydynt yn gweld nad ydynt yn gallu ad-dalu'r benthyciad, ddod o hyd i ffordd glir o'u rhyddhau o'r sefyllfa. Mae darparwyr benthyciadau llyfr log sydd yn aelodau o Gymdeithas Fasnach Gredyd Defnyddwyr yn ymaelodi â'r côd ymarfer, yn rhoi hawl i ddefnyddwyr "derfynu'n wirfoddol". Gall y

² Comisiwn y Gyfraith, Cofrestru Morgeisi Nwyddau: Gwersi o Systemau Eraill (2017), ar gael yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/bills-of-sale/>.

³ Awdurdod Rheoli Cyllid, *Ymchwil Credyd Defnyddwyr: Benthyciadau Diwrnod Talu, Benthyciadau Llyfr Log a Gwasanaethau Rheoli Dyled* (2014), tudalen 27.

benthyciwr ildio eu cerbyd i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr yn gyfan gwbl heb dalu'r ôl-ddyledion a'r ddyled yn llawn a cherdded i ffwrdd o'r ddyled.

- 1.14 Nid yw hyn yn hawl statudol, fodd bynnag, ac nid yw'n bolisi pob darpariwr benthyciadau.

Caledi i brynwyr preifat diniwed

- 1.15 Nid yw'r gyfraith gyfredol yn cynnig unrhyw amddiffyniad i brynwyr preifat sydd yn prynu nwyddau sy'n agored i bil gwerthiant, hyd yn oed os ydynt yn gwneud mewn ewyllys da heb wybod am y warant. Mae'r rhai sydd yn prynu car ail-law heb sylweddoli bod y car yn agored i bil gwerthiant yn gorfod wynebu dewis annymunol: naill ai talu benthyciad rhywun arall, neu fentro colli'r car.
- 1.16 Er bod y broblem yn ymddangos yn fach, dioddefa rhai prynwyr caledi difrifol. Mae'r broblem hefyd yn creu cyhoeddusrwydd gwael ar gyfer y sawl sy'n rhoi benthycwyr llyfr log, yn rhoi enw drwg i'r diwydiant.
- 1.17 Mae'r gyfraith hurbrynu yn darparu mwy o amddiffyniad ar gyfer prynwyr preifat. Gall prynwr preifat sydd yn prynu cerbyd mewn ewyllys da heb wybod am y cytundeb hurbrynu yn dod yn berchennog ar y cerbyd heb fod yn gyfrifol am y cytundeb hurbrynu.

Pwysau ar ddarparwyr benthyciadau

Cofrestr drud a beichus

- 1.18 Mae Deddfau Biliau Gwerthiant yn gosod costau diangen ar ddarparwyr benthyciadau. Rhaid iddynt gofrestru bob bil gwerthiant gyda'r Uchel Lys, sydd yn defnyddio hen system bapur. Mae cofrestru yn ddrud a mae ddarparwyr benthyciadau yn dueddol o gwyno bod y system yn feichus i'w gweithredu.
- 1.19 Mae'r gofrestr mor anodd i'w hymchwilio fel na ddefnyddir yn aml i wirio bodolaeth bil gwerthiant dros ased. Yn lle hynny, mae ddarparwyr benthyciadau llyfr log yn cofrestru yn aml gyda chofrestrfeydd cyllidol asedion masnachol yn wirfoddol. Yn ymarferol, defnyddia prynwyr masnachol y cofrestrau yma i gael gwybod am drefniadau cyllid cerbydau, gan gynnwys biliau gwerthiant. Er hynny, mae'n bosib y bydd pris chwilio'r cofrestri preifat hyn yn rhwystro prynwyr preifat rhag gwneud hyn.

Gofyniad am ddogfennau diangen

- 1.20 Pan roddir biliau gwerthiant fel sicrwydd ar gyfer benthyciad, mae Deddf Biliau Gwerthiant 1882 yn gofyn bod y ddogfen biliau gwerthiant yn cydymffurfio â ffurf sylfaenol cymhleth, sydd yn cynnwys 12 gofyniad unigol.
- 1.21 Mae methiant i gydymffurfio gydag unrhyw ofynion yn y dogfennau hyn yn arwain at gosb am dorri'r gofynion. Nid yn unig y bydd y darpariwr yn colli unrhyw hawliau dros y nwyddau, ond byddant hefyd yn colli'r hawl i gasglu unrhyw tâl benthyciad sy'n ddyledus iddynt. O ystyried y gosb hon, mae ddarparwyr benthyciadau yn amharod i newid ffurf sylfaenol y benthyciadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrchol i benthycwyr, fel y gellid ddeall.

Mynediad at gyllid ar gyfer busnesau bach

- 1.22 Mae nifer wedi cwyno bod ffurf gor-dechnegol y Deddfau Biliau Gwerthiant yn cyfyngu gallu busnesau anghorfforedig i gael mynediad at gyllid. Un pwynt technegol, er

enghraifft, yw'r ffaith y gall biliau gwerthiant gael eu defnyddio ar gyfer benthyciadau sefydlog yn unig, a nid ar gyfer gwarantebau neu gredyd cylchdrool.

- 1.23 Ar hyn o bryd, prin yw'r biliau gwerthiant a ddefnyddir ar gyfer trefniadau am fenthyciadau sydd ddim ar gyfer cerbydau. Serch hynny, awgrymodd ymgynghorwyr y gallai hyn newid, gyda'r diwygiadau priodol. Cyfeiriodd rhai at yr alw cryf am fenthyca celf, lle byddai'n ddymunol i ganiatáu i unigolion sydd werth llawer o arian sicrhau benthyciadau a gwarantau yn erbyn gwaith celf.
- 1.24 O dan y gyfraith gyfredol, mae'n rhaid i rai trefniadau cyllid ac anfonebau sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau (a adnabyddir fel aseiniad cyffredinol cyfrifon dyledus) gael eu cofrestru fel "petaen nhw" yn filiau gwerthiant. Os nad yw'r trefniad wedi cael ei gofrestru, bydd yr aseiniad yn ddirym ar fethdaliad y sawl sy'n cael benthyciad. Mae'r weithdrefn gofrestru hon mor gymhleth a drud fel nad oes llawer iawn o'r rhai sy'n rhoi benthyc yn mynd drwy'r broses. Yn lle hynny, mae'r sawl sy'n rhoi benthyc yn strwythuro trefniadau mewn ffyrdd eraill - neu, mewn rhai achosion, yn ystyried gweithred o fethdaliad.
- 1.25 I gael mwy o fanylion am y materion hyn, gweler Pennod 2 yr adroddiad.

PWYNTIAU ALLWEDDOL Y BIL DRAFFT

- 1.26 Yn yr adran hon, rydym yn pwysleisio rhai darpariaethau allweddol y Bil drafft. Rydym hefyd yn darparu cyfeiriadau ar gyfer yr adroddiad terfynol, sy'n darparu mwy o fanylion.

Cwmpas

- 1.27 Mae'r Bil drafft yn gymwys mewn achosion lle mae "unigolyn" yn cytuno ar "dâl" ar gyfer "nwyddau amodol" sy'n berchen iddynt, i sicrhau cyflawniad o "ymrwymiad cymhwysol". Mae hyn yn cynnwys pump syniad:
- (1) **Unigolyn:** sef bod dynol, yn hytrach na hanfod corfforaethol fel cwmni. Gallai'r unigolyn fod yn ddefnyddiwr, unig fasnachwr neu bartner mewn partneriaeth anghorfforedig. Nid yw'r Bil drafft yn cael unrhyw effaith ar daliadau'r cwmni.⁴
 - (2) **Tâl:** Mae'r math o sicrwydd yn cael ei ddisgrifio fel "tâl", yn ôl y gyfraith am forgeisi dros dir, llongau ac awyrennau. Mae tâl yn hawl sicrwydd cyfyngedig yn hytrach na throsglwyddiad llawn o berchnogaeth i'r sawl sy'n rhoi benthyc.⁵
 - (3) **Nwyddau cymhwysol:** Mae'r Bil drafft yn berthnasol i bethau y gall rhywun gyffwrdd ynddynt neu bethau y gall rhywun eu symud. Nid yw'n berthnasol i dir neu eiddo anghyffwrdd megis cyfranddaliadau neu hawliau eiddo deallusol. Mae llongau ac awyrennau yn benodol yn cael eu cadw allan, oherwydd bod ganddyn nhw gyfundrefnau morgeisi eu hunain.⁶
 - (4) **Perchnogaeth:** Mae rhaid i'r unigolyn fod yn berchennog cyfreithiol ar y nwyddau. Ar hyn o bryd, nid yw biliau gwerthiant yn gallu cael eu cytuno ar gyfer

⁴ Cymal 2(1) y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.7 yr adroddiad terfynol.

⁵ Cymal 2(1) y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.10 yr adroddiad terfynol.

⁶ Cymal 4 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.60 yr adroddiad terfynol.

nwyddau y gellir cael gafael arnynt yn hwyrach, ac mae'r Bil drafft yn cadw'r gwaharddiad hwn ar gyfer morgaisi nwyddau.⁷

- (5) **Ymrwymiad amodol:** Yn y mwyafrif o achosion, bydd morgais nwyddau yn sicrhau benthyciad, ond gallai gael ei ddefnyddio i sicrhau ymwrymiadau eraill. Yn dilyn pryder a fynegwyd gan fudd-ddeiliaid, mae'r Bil drafft yn gadael tri ymrwymiad allan, lle gallai'r morgais nwyddau o bosib ganiatáu camddefnydd. Nid yw morgais nwyddau yn gallu sicrhau:⁸
- (a) ymrwymiad gwaith neu ymrwymiad i gyflawni gwasanaethau yn bersonol;
 - (b) gwarant, oni bai bod y gwarantwr yn unigolyn sy'n werth llawer o arian;
 - (c) credyd cyfrif di-dor, megis gorddrafft neu gerdyn credyd, oni bai bod y sawl sy'n cael benthyg naill ai yn unigolyn sydd werth llawer o arian, neu'n fusnes sy'n benthyg mwy na swm penodol (y disgwylir iddo fod yn £25,000 fel a drafodir isod).

1.28 Mae'r gyfundrefn morgaisi nwyddau yn eistedd ochr yn ochr â hurbrynu a gwerthiant amodol, nad ydynt yn cael eu heffeithio gan y Bil drafft. Hefyd, nid yw'n gwneud newidiadau i'r gyfraith am wystlon cyfreithiol neu'r gyfraith lienau, pan mae'r sawl sy'n rhoi benthyg yn cadw meddiant ar y nwyddau yn ystod yr amser benthyciad (fel y mae gyda gwystlo).⁹

Label newydd: "morgais nwyddau"

1.29 Aethom ati i ymgynghori ar amrywiaeth o labeli i ddisgrifio'r ffurf newydd hon o hawlrwym, a daethom i'r casgliad mai "morgais nwyddau" oedd yn haws ei ddeall. Mae'r Bil drafft Bil yn defnyddio'r label hwn.¹⁰

Morgaisi eithriedig a morgaisi safonol

1.30 Bwriad y Bil drafft yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer maes eang o bryniannau, ac mae angen i'r Bil drafft amddiffyn yr unigolyn bregus sy'n cael benthyciad tra bo hyblygrwydd i'r rhai eraill. Mae felly'n gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n cael benthyciad a allai fod angen amddiffyniad penodol ("safonol"), a'r rhai sydd â mwy o ddewisiadau sy'n gallu talu am gyngor cyfreithiol ("eithriedig").

1.31 Roedd Deddf Credyd i Ddefnyddwyr 1974 yn gwahaniaethu rhwng "cytundebau credyd rheoleiddiedig" a'r rhain nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, yn bennaf:

- (1) benthyciadau o fwy na £25,000 ar gyfer dibenion busnes; neu
- (2) benthyciadau o fwy na £60,260 ar gyfer unigolion sydd werth llawer o arian.

⁷ Cymalau 2(2) a (3) y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.22 yr adroddiad terfynol.

⁸ Cymal 6 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.103 yr adroddiad terfynol.

⁹ Gweler er enghraifft, gymalau 8(4) a 8(5) y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.123 yr adroddiad terfynol.

¹⁰ Cymal 2(4) y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 4.20 yr adroddiad terfynol.

1.32 Mae'r Bil drafft yn dilyn y gwahaniaeth hwn mewn ffurf syml. Mae morgeisi nwyddau i gyd yn safonol (ac yn amodol ar amddiffyniadau llawn y Bil drafft) oni bai:

- (1) bod yr "amodau net gwerth uchel" yn cael eu cyflawni. Rydym yn argymhell mai unigolion sydd werth llawer o arian yw'r rhai a gafodd incwm net o £150,000 o leiaf y flwyddyn ddiwethaf neu sydd ag asedau o £500,000 o leiaf (ddim yn cynnwys gwerth eu cartref a'r gronfa bensiynau). Bydd y ffigurau hyn yn ymddangos mewn rheoliadau, yn hytrach nag ar wyneb y Bil drafft; neu
- (2) bydd yr "amodau credyd busnes" yn cael eu cyflawni. Rydym yn argymhell bod rhain yn berthnasol i fenthyciadau sy'n fwy na £25,000 a wnaethpwyd yn gyfan gwbl neu yn bennaf ar gyfer dibenion busnes y sawl sy'n cael benthyciad. Eto, bydd y trothwy hwn yn cael ei osod yn y rheoliadau.

1.33 Yn y naill achos neu'r llall, byddai'r sawl sy'n cael benthyciad angen "dewis ymeithrio" o'r amddiffyniadau yn weithredol. Mae'n rhaid i'r morgais nwyddau gynnwys datganiad i nodi hyn.¹¹

Gofynion dogfennau

1.34 Mae morgais nwyddau yn bryniant sylweddol. Bydd gofyn am ddogfen ysgrifenedig wedi'i llofnodi gan y benthycwr (naill ai'n bersonol neu yn electronig). Er hynny, bydd y ddogfen yn fwy syml na bil gwerthiant, gyda llai o ofynion am y cynnwys. Yn ymarferol, bydd y ddogfen forgais yn cael ei gweithredu ar y cyd gyda chytundeb credyd, ac felly nid oes angen copïo'r wybodaeth yn y ddogfen honno.¹²

1.35 Bydd angen i forgeisi nwyddau i gyd gynnwys rhybuddion amlwg mewn ffurf benodedig. I gael manylion ynglŷn â morgeisi ar gerbydau, gweler y llinellau canlynol:

GALL EICH CERBYD GAEL EI ADFEDDIANNU OS NAD YDYCH YN PARHAU I DALU'R AD-DALIADAU AR EICH BENTHYCIAD

GALLECH GAEL EICH ERLYN AM DWYLL OS YDYCH YN GWERTHU'R CERBYD NEU'N CYMRYD BENTHYCIAD ARALL ALLAN ARNOHEBDDATGAN Y MORGAI HWN

1.36 Bydd angen rhybuddion wedi'u haddasu ar gyfer morgeisi ar nwyddau eraill.

Cofrestru

1.37 Mae angen ar frys i ddiwygio'r system gofrestru, er mwyn gwneud y system yn rhatach a symlach. Mae'r Bil drafft yn darparu am gofrestr electronig newydd, i'w dal yn yr Uchel Lys, a fydd yn cynnwys morgeisi nwyddau ac aseinio cyfrifon dyledus yn gyffredinol. Bydd y gofrestr yn cofnodi manylion hanfodol y pryniant, sy'n golygu y bydd unrhyw un

¹¹ Cymal 26 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 3.20 yr adroddiad terfynol.

¹² Cymal 5 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 5.29 yr adroddiad terfynol.

sy'n chwilio'r gofrestr yn gallu darganfod am forgais nwyddau ar gyfer nwyddau penodol neu am aseiniad cyffredinol.¹³

- 1.38 Yn ymarferol, rydym yn disgwyl y bydd y data hefyd yn cael ei gwerthu i gofrestrfeydd cyllidol asedau preifat, sy'n golygu y bydd modd iddynt ddarparu gwasanaeth "siop un alwad" i'w cwsmeriaid. Er enghraifft, bydd hyn yn caniatáu i fasnachwr cerbydau gael gwybod am forgais nwyddau ochr yn ochr â gwybodaeth arall, megis cyllid hurbrynu ac a oedd y cerbyd wedi cael ei ddwyn.
- 1.39 Os nad yw morgais nwyddau wedi cael ei gofrestru, yna bydd yn ddirym yn erbyn trydydd parti neu ymddiriedolwr mewn methdaliad.¹⁴

Diogelu prynwyr preifat diniwed

- 1.40 O dan deddfwriaeth hurbrynu, mae prynwr preifat sy'n prynu cerbyd ar gyfer dibenion preifat mewn ewyllys da heb gael ei hysbysu'n iawn am y cytundeb hurbrynu ac yn dod yn berchennog y cerbyd. Nid yw'r amddiffyniad hwn yn berthnasol i filiau gwerthiant ar hyn o bryd, gan achosi gwir galedi.
- 1.41 Mae'r Bil drafft yn darparu nad yw prynwyr preifat yn cael eu rhwymo gan forgais nwyddau rhywun arall, oni bai eu bod yn gwneud hyn mewn ewyllys da heb gael gwybod yn iawn am y morgais nwyddau.¹⁵ Nid yw hyn yn amddiffyn prynwyr masnachol neu'r sawl sy'n rhoi benthycwr.¹⁶ Yn ôl y Bil drafft, mae'r amddiffyniad hwn yn berthnasol i'r nwyddau i gyd, ac nid cerbydau yn unig.

Dyletswydd newydd ar fenthycwyr i ddadlennu'r morgais nwyddau

- 1.42 Mae'r Bil drafft yn cynnwys dyletswydd ar fenthycwyr i ddadlennu bodolaeth morgais nwyddau os ydynt yn cael gwared â'r nwyddau neu gael morgais arall ar eu cyfer. Mae benthycwr sy'n elwa o wneud hyn yn anonest amdanynt eu hunain neu am bobl eraill, neu'n achosi colled i'r sawl sy'n rhoi benthycwr gan werthu neu ailforgeisio'r nwyddau heb ddatgan y morgais nwyddau yn agored i'w erlyn o dan Deddf Twyll 2006.¹⁷

Amddiffyniadau ar gyfer meddiannu'r holl forgeisi nwyddau

- 1.43 Mae'r Bil drafft yn darparu amrywiaeth o amddiffyniadau i atal y sawl sy'n rhoi benthycwr rhag cymryd meddiant o'r nwyddau yn rhy rhwydd. Mae rhai'n berthnasol i'r holl forgeisi nwyddau (rhai eithriedig a rhai safonol), tra bo'r drefn dewis ymuno ar gyfer gorchymyn llys (gweler y disgrifiad isod) yn berthnasol i forgeisi safonol yn unig.
- 1.44 Mae tri amddiffyniad yn berthnasol i bawb sy'n cael benthyciad:

- (1) Mae rhaid i'r sawl sy'n rhoi benthycwr gael rhesymau ar gyfer meddiant. Yn y mwyafrif o achosion, y rheswm am hyn fydd oherwydd bod y benthycwr wedi

¹³ Cymal 9 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 6.12 yr adroddiad terfynol.

¹⁴ Cymalau 12 a 14 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 7.16 yr adroddiad terfynol.

¹⁵ Fel a drafodir ym mharagraff 7.40 yr adroddiad terfynol, mae cyfraith achosion wedi penderfynu bod "gwir wybodaeth" yn cynnwys anwybodaeth o'r gyfraith.

¹⁶ Cymalau 12 a 13 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 7.24 yr adroddiad terfynol.

¹⁷ Cymal 11 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 7.5 yr adroddiad terfynol.

methu talu'r ad-daliadau. Er hynny, mae rhesymau eraill ar gyfer meddiant, gan gynnwys cynnig y nwyddau ar werth neu fethu eu hyswirio yn unol â thermâu'r morgais nwyddau.¹⁸

- (2) Nid yw'r sawl sy'n rhoi benthycwyr yn gallu mynd i dŷ'r benthyciwr i gymryd meddiant heb naill ai orchymyn llys neu ganiatâd. Mae'n rhaid i'r benthyciwr roi caniatâd sy'n gadael i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr gael mynediad i'r tŷ.¹⁹
- (3) Mae'n rhaid i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr, sydd wedi cymryd meddiant o nwyddau heb orchymyn llys, aros pum diwrnod gwaith cyn gwerthu'r nwyddau.²⁰ Mae hyn yn gadael i'r perchennog ymgeisio i'r llys bod y nwyddau yn cael eu dychwelyd, naill ai drwy ddangos nad ydynt wedi cael eu hadfeddiannu neu drwy gynnig yr arian sy'n ddyledus. Gall benthycwyr safonol ymryddhau o'r amddiffyniad hwn os ydynt yn dymuno.

Gweithdrefn "dewis ymuno"

- 1.45 Yn achos cytundebau hurbrynu, mae gofyn i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr gael gorchymyn llys cyn adfeddiannu nwyddau lle mae'r sawl sydd wedi benthycwyr wedi talu o leiaf un traean o gyfanswm y benthyciad. Ar gyfer benthycwyr mewn trafferthion ariannol dros dro, mae gan y llysoedd bwerau eang i ddarparu mwy o amser i dalu'r ôl-ddyledion ac i leihau llog yn y dyfodol.
- 1.46 Mae cytundeb cyffredinol y byddai hawl i gyflwyno eu hachos i'r llys yn fanteisiol lle mae benthycwyr yn ymrwmo â'r broses llys. Er hynny, gall y broses llys ddod yn sêl bendith ddrud. Nid oes gan y llys opsiwn arall ond caniatáu'r gorchymyn os oes diffyg tystiolaeth gan y benthyciwr am ei gallu/allu i dalu. Mae costau'r llys o sawl cannoedd o bunnoedd sy'n cael eu hychwanegu at yr ôl-ddyledion, yn ychwanegu at drafferthion y benthyciwr.
- 1.47 O dan y Bil drafft, mae gan y benthyciwr safonol sydd wedi ad-dalu o leiaf un traean o gyfanswm y benthyciad hawl i fynnu bod y sawl sy'n rhoi benthycwyr yn cael gorchymyn llys – ond mae rhaid i'r benthyciwr ddewis ymuno ar gyfer y hawl hon. Mae'r Bil drafft yn gofyn i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr gyflwyno "rhybudd meddiant" i fenthycwyr fel y rhain. Bydd hyn yn rhoi tri opsiwn i'r sawl sy'n cael benthyciad: gofyn i'r sawl sy'n rhoi benthycwyr am orchymyn llys, terfynu'n wirfoddol, neu ofyn am amser i dderbyn cyngor am ddyledion.²¹
- 1.48 Mae'r amser ychwanegol sydd ei angen i dderbyn cyngor yn hynod o bwysig. Bwriad yr amser hwn yw ceisio annog benthycwyr i gael help gan gynghorydd dyledion a datrys problemau heb fod yn atebol i'r llysoedd. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r polisi sy'n sail i'r Fformiwla Cyn-Gyfreitha newydd ar gyfer Hawliadau Dyledion, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2017.

¹⁸ Cymal 15 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 8.3 yr adroddiad terfynol.

¹⁹ Cymal 16 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 8.24 yr adroddiad terfynol.

²⁰ Cymal 18 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 8.45 yr adroddiad terfynol.

²¹ Cymalau 19 a 20 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 9.4 yr adroddiad terfynol.

Terfyniad gwirfoddol

- 1.49 Mae gwrandawiadau'r llys yn amddiffyn benthycwyr a allai dalu'r benthyciad yn llawn petaen nhw'n cael rhagor o amser. Er hynny, nid ydynt yn gwneud llawer i helpu'r rhai heb unrhyw obaith realistig o ad-dalu'r benthyciad. Mae angen i'r benthycwyr hyn ryddhau eu hunain o'r benthyciad drwy roi'r nwyddau yn ôl a cherdded i ffwrdd o'r gytundeb.
- 1.50 O dan y Bil drafft, bydd gan yr unigolyn safonol sy'n cael benthyciad hawl statudol newydd i derfynu'n wirfoddol. Mae hyn yn cael ei fodelu ar god Cymdeithas Fasnach Gredyd Defnyddwyr. Mae'r hawl yn berthnasol o ddechrau'r cytundeb ond bydd yn dod i ben unwaith mae'r sawl sy'n rhoi benthyciad naill ai wedi gwneud cais am orchymyn llys neu (os nad oes angen cael gorchymyn llys) wedi mynd i gostau i adfeddiannu heb orchymyn llys.
- 1.51 Mae rhaid i'r sawl sy'n rhoi benthyciad dderbyn bod nwyddau'n treulio'n naturiol. Mae'r sawl sy'n cael benthyciad yn colli'r hawl derfynu'n wirfoddol dim ond os yw'r nwyddau wedi cael eu difrodi'n fwriadol, neu os yw'r sawl sy'n cael benthyciad wedi methu gofalu amdanynt yn rhesymol mewn ffordd sy'n cael effaith sylweddol ar eu gwerth marchnadol.²²

²² Cymal 23 y Bil drafft, trafodir ym mharagraff 10.4 yr adroddiad terfynol.